

CRAFT IN  
THE BAY

CREFFT YN  
Y BAE



# H E D F A N O L

10TH JUNE -  
6TH AUGUST  
2023



H E D F A N O L

## CONTEMPORARY ORIGINAL PRINTS OF BIRDS AND OTHER WINGED CREATURES

The Makers Guild in Wales has long been interested in staging an exhibition of printmaking. MGW members Marian Haf and Ruth Thomas were invited to curate an exhibition of printmaking and to take part themselves.

Consideration was given to the theme and as Marian and Ruth currently produce original prints based on birds and other animals, it was decided this would be a good starting point for an exhibition. Eventually the team settled on the theme of flight, to include a variety of birds and flying insects. By looking at printmakers they each admired, carrying out additional research, Marian and Ruth came to a shortlist of printmakers based on the quality of the work and breadth of techniques. They wanted the exhibition to showcase printmaking in all its glory and to convey to the viewing

public the diversity of approaches within this medium. The final selection of eight printmakers means that the following print processes are represented in the exhibition: etching, drypoint, linocut, collagraph, wood engraving, woodcut and mezzotint. Most of the artists have made new prints specifically for the exhibition, to show alongside some of their existing work. The printmakers in the exhibition demonstrate a concern with the worrying trend of habitat loss and decline in biodiversity, but also an appreciation of the natural world, and in particular, the wonderful world of winged creatures.

## PRINTIAU GWREIDDIOL CYFOES O ADAR A CHREADURIAID ASGELLOG ERAILL

Mae Urdd Gwneuthurwyr Cymru wedi bod â diddordeb ers tro mewn cynnal arddangosfa o brintiau. Gwahoddwyd aelodau UGC Marian Haf a Ruth Thomas i guradu arddangosfa o brintiau ac i gymryd rhan eu hunain.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r thema a chan fod Marian a Ruth ar hyn o bryd yn cynhyrchu printiau gwreiddiol yn seiliedig ar adar ac anifeiliaid eraill, penderfynwyd y byddai hwn yn fan cychwyn da ar gyfer yr arddangosfa. Setlodd y tîm ar y thema hedfan, i gynnwys amrywiaeth o adar a phryfed yn hedfan. Drwy edrych ar wneuthurwyr printiau yr oeddent yn eu hedmygu, gan wneud ymchwil ychwanegol, daeth Marian a Ruth at restr fer o wneuthurwyr printiau yn seiliedig ar ansawdd y gwaith ac ehangder y technegau. Roeddent am i'r arddangosfa arddangos gwneud printiau yn ei holl ogoniant ac i gyfleu i'r cyhoedd yr amrywiaeth o ddulliau gweithredu

o fewn y cyfrwng hwn. Mae'r detholiad terfynol o wyth o wneuthurwr printiau yn golygu bod y prosesau argraffu canlynol yn cael eu cynrychioli yn yr arddangosfa: ysgythru, sychbwynt, toriad leino, colagraff, ysgythriad pren, torlun pren a mezzotint. Mae'r rhan fwyaf o'r artistiaid wedi gwneud printiau newydd yn benodol ar gyfer yr arddangosfa, i'w dangos ochr yn ochr â rhywfaint o'u gwaith presennol. Mae'r gwneuthurwyr printiau yn yr arddangosfa yn dangos eu pryder ynghylch y duedd bryderus o golli cynefinoedd a dirywiad mewn bioamrywiaeth, ond hefyd gwerthfawrogiad o'r byd naturiol, ac yn arbennig, byd rhyfeddol creaduriaid asgellog.

## H E D F A N O L

JENNY MCCABE	1
JULIA MANNING	5
MARIAN HAF	9
MOLLY LEMON	13
NAT MCINTYRE	17
RUTH THOMAS	21
SUSAN DAVIES	25
VIV KERSEY	29



# JENNY MCCABE

Jenny is a printmaker working with metal plate etchings and collagraph plates. She uses decisive mark-making to breathe life into the plates, turning a simple piece of metal or card into something new and intriguing. She uses messy gestural lines to capture the energy and movement of her subjects. Jenny uses hand cutting techniques to turn her etched metal plates into intricate



shapes playing with compositions and the embossed impressions the plate makes on paper. An artist and printmaker with over 25 years' experience of making and exhibiting work, Jenny is based in Lancaster in the Northwest of England where she works from her studio and teaches regularly in print rooms around the country.







Gwneuthurwr printiau yw Jenny sy'n gweithio gydag ysgythriadau platiau metal a phlatiau colagraff. Mae hi'n gwneud marciau pendant i roi bywyd i'r platiau, gan droi darn syml o fetel neu gerdyn yn rhywbeth newydd a diddorol. Mae hi'n defnyddio llinellau ystumiol blêr i ddal egni a symudiad ei phynciau. Mae Jenny yn defnyddio technegau torri â llaw i droi ei phlatiau metal ysgythru yn siapiau cymhleth gan chwarae gyda chyfansoddiadau a'r argraffiadau boglynnog y mae'r plât yn eu gwneud ar bapur. Yn artist a gwneuthurwr printiau gyda dros 25 mlynedd o brofiad o wneud ac arddangos gwaith, mae Jenny wedi'i lleoli yn Lancaster yng Ngogledd-orllewin Lloegr lle mae'n gweithio o'i stiwdio ac yn dysgu'n rheolaidd mewn ystafelloedd argraffu ledled y wlad.








## JULIA MANNING

Julia has a love for wild open spaces such as salt marshes, estuaries and islands. Inspiration comes from drawing in the wild, observing and sketching while walking alone. During lockdown, Julia started doing a Daily Moth Drawing. Each evening the moth trap was set in the garden and opened the following morning. Julia was inspired and excited by the moths discovered. She would choose a moth, place it in a clear pot and draw with the help of a magnifying glass. Afterwards the moth was released into a shady spot in the garden. These drawings

led to a series of relief prints. Julia studied Fine Art at Bath Academy of Art, Corsham. For over 40 years she has earned a living with a paint brush, from portraits to trompe l'oeil, from murals to painted tapestries and always inspired by nature. She is a member of Make South West (The Devon Guild of Craftsmen), an elected Senior Fellow of The Royal Society of Painter Printmakers (RE), an elected member of The Society of Wildlife Artists (SWLA) and for 5 years was a member of Pine Feroda.







4/35.

MANNING,

Julia Manning 2023

## H E D F A N O L

JULIA MANNING

Mae gan Julia gariad at fannau agored gwyllt fel morfeydd heli, aberoedd ac ynysoedd. Daw ysbrydoliaeth o arlunio o fywyd gwyllt, arsylwi a braslunio wrth gerdded ar eich pen eich hun. Yn ystod y cyfnod cloi, dechreuodd Julia wneud Lluniad Bob Dydd o Wyfynod. Bob nos roedd y trap gwyfynod yn cael ei osod yn yr ardd a'i agor y bore wedyn. Cafodd Julia ei hysbrydoli a'i chyffroi gan y gwyfynod a ddarganfuwyd. Byddai'n dewis gwyfyn, yn ei roi mewn pot clir ac yn tynnu llun gyda chymorth chwyddwydr. Wedi hynny rhyddhawyd y gwyfyn i lecyn cysgodol yn yr ardd. Arweiniodd y darluniau hyn at gyfres o brintiau cerfwedd. Astudiodd Julia Gelfyddyd Gain yn Academi Gelf Caerfaddon, Corsham. Ers dros 40 mlynedd mae hi wedi ennill bywoliaeth gyda brws paent, o bortreadau i trompe l'oeil, o furluniau i dapestriau wedi'u paentio ac wedi'i hysbrydoli bob tro gan natur. Mae hi'n aelod o Make South West (Urdd Crefftwyr Dyfnaint), yn Uwch Gymrawd etholedig o'r Royal Society of Painter Printmakers (RE), yn aelod etholedig o'r Gymdeithas Artistiaid Bywyd Gwyllt (SWLA) ac yn aelod ers 5 mlynedd o Pine Feroda.





# MARIAN HAF

Growing up, Marian's grandmother had a taxidermy heron in the hall - an object of great fascination with so many memories attached to it. The time the glass broke and how the younger grandchildren would be frightened to pass it. Now it is enjoyed by Marian on visits to the house, for its beauty and stillness. The prints in the exhibition are studies from taxidermy. The melancholy attached to them delights Marian, whose work often is sparked from memories, attachment and hiraeth.

Marian works from her garden studio in her native corner of Ceredigion taking inspiration from her life in rural west Wales. A Fine Art painting graduate and self-taught printmaker, working predominantly with collagraph - enjoying its accessibility and possibilities.







## H E D F A N O L

MARIAN HAF

Yn tyfu i fyny, roedd gan mamgu Marian grëyr glas tacsidermi yn y cyntedd - gwrthrych o ddi-ddordeb mawr gyda chymaint o atgofion ynghlwm wrtho. Pan dorrodd y gwydr a sut y byddai'r wyrion iau yn ofni ei basio. Bellach mae Marian yn ei fwynhau ar ymweliadau â'r tŷ, oherwydd ei harddwch a'i lonyddwch. Mae'r printiau yn yr arddangosfa yn astudiaethau o dacsidermi. Mae Marian wrth eu bodd â'r pruddglwyf ynghlwm â'r tacsidermi, y mae ei gwaith yn aml yn cael ei ysbrydoli gan ei chof, ymlyniad a hiraeth.

Mae Marian yn gweithio o'i stiwdio arddio yn ei chornel enedigol o Geredigion gan gymryd ysbrydoliaeth o'i bywyd yng nghefn gwlad gorllewin Cymru. Mae'n raddedig mewn paentio Celfyddyd Gain ac yn wneuthurwr printiau hunan dysgedig, yn gweithio'n bennaf gyda cholagraff - gan fwynhau ei hygyrchedd a'i bosibiliadau.





# MOLLY LEMON

Creating work inspired by winged creatures meant Molly was in her element. While growing up on the edge of Dartmoor Molly loved being outdoors and exploring local woodland, fields and rivers, spotting the different creatures that lived there. Molly's passion for birds comes from her Mother who starts every day by filling up bird feeders in the garden. Molly has recently been experimenting with mixing her wood engravings with other print mediums, such as a robin engraving surrounded by printed feathers. This new work has felt playful and freeing. Molly works onto each woodblock using traditional hand tools. The block is then inked up and printed on her 1868 miniature Albion Press. Concerned with conservation and the climate crisis Molly aims for her prints to reflect the beauty and vulnerability of the natural world. For each print, collage or card sold Molly donates a percentage to environmental charities. Since 2019 Molly has donated over £8,000.







## H E D F A N O L

MOLLY LEMON

Mae Molly yn mwynhau ac yn cael ei hysbrydoli gan greaduriaid asgellog. Wrth dyfu i fyny ar gyrion Dartmoor roedd Molly wrth ei bodd yn yr awyr agored ac yn archwilio coetiroedd, caeau ac afonydd lleol, gan weld y gwahanol greaduriaid oedd yn byw yno. Daw angerdd Molly am adar oddi wrth ei Mam sy'n dechrau bob dydd drwy lenwi porthwyr adar yn yr ardd. Yn ddiweddar mae Molly wedi bod yn arbrofi gyda chymysgu ei hysgythriadau pren gyda chyfryngau print eraill, fel engrafiad robin goch wedi'i amgylchynu


gan blu printiedig. Mae'r gwaith newydd hwn yn chwareus ac yn rhydd. Mae Molly yn gweithio ar bob bloc pren gan ddefnyddio offer llaw draddodiadol. Yna caiff y bloc ei incio a'i argraffu ar ei Albion Press bach o 1868. Mae Molly, sy'n ymwneud â chadwraeth a'r argyfwng hinsawdd, yn bwriadu i'w phrintiau adlewyrchu harddwch a bregusrwydd byd natur. Am bob print, collage neu gerdyn a werthir mae Molly yn rhoi canran i elusennau amgylcheddol. Ers 2019 mae Molly wedi cyfrannu dros £8,000.





# NAT MCINTYRE

Nat is a Cambridgeshire based printmaker whose work is concerned with the symbolic and aesthetic value of insects. She is inspired by their limitless diversity in terms of their shape, colour and texture; studying their physiognomy at close range to depict their minute details. She has been making insect related work for over 25 years but since 2020 she has been focusing on



linocut printmaking and her recent work is a celebration of insects portrayed in colourful ink. Nat graduated from the Slade School of Fine Art with an MFA in Fine Art Media in 1999. She went on to study for a PGCE and has been an art teacher for over 20 years, teaching fine art, printmaking and photography. Nat works from her studio in Cambridgeshire.







Gwneuthurwr printiau o Swydd Gaergrawnt yw Nat, mae ei gwaith yn ymwneud â gwerth symbolaidd ac esthetig pryfed. Mae wedi'i hysbrydoli gan eu hamrywiaeth diben-draw o ran eu siâp, lliw a gwedd; gan astudio eu ffisiognomi yn agos i ddarlunio eu manylion bychain. Mae wedi bod yn gwneud gwaith yn ymwneud â phryfed ers dros 25 mlynedd ond ers 2020 mae Nat wedi bod yn canolbwyntio ar wneud

printiau leino ac mae ei gwaith diweddar yn ddathliad o bryfed wedi'u portreadu mewn inc lliwgar. Graddiodd Nat o Ysgol Celfyddyd Gain Slade gydag MFA mewn Cyfryngau Celfyddyd Gain yn 1999. Aeth ymlaen i astudio ar gyfer TAR ac mae wedi bod yn athrawes celf ers dros 20 mlynedd, yn dysgu celfyddyd gain, gwneud printiau a ffotograffiaeth. Mae Nat yn gweithio o'i stiwdio yn Swydd Gaergrawnt.





## RUTH THOMAS

The natural environment is a constant source of inspiration for Ruth. Through printmaking she explores her encounters with the fauna and flora around her in North Wales. While out walking, she collects natural objects such as feathers, and incorporates direct impressions from these objects into her prints, for their textures, forms and their potential for creating new images. Working with feathers has evolved into making prints of birds in flight, suggestive of lightness and

liberty. Originally from Northamptonshire, Ruth moved to North Wales in 2000 with her husband and daughter. Ruth graduated from Leeds Metropolitan University in 1996 with a Master's degree in Art & Design. She has exhibited in galleries across the UK, as well as internationally. She has work in collections in Australia, New Zealand, Europe, the UK and the USA. She was elected to the Royal Cambrian Academy in 2005 and the Makers Guild in Wales in 2021.







Mae'r amgylchedd naturiol yn ffynhonnell gyson o ysbrydoliaeth i Ruth Thomas. Trwy wneud printiau mae'n archwilio ei chyfarfyddiadau â'r ffawna a'r fflora o'i chwmpas yng Ngogledd Cymru. Tra allan yn cerdded, mae'n casglu gwrthrychau naturiol fel plu, ac yn ymgorffori argraffiadau uniongyrchol o'r gwrthrychau hyn yn ei phrintiau, am eu gwadau, eu ffurfiau a'u potensial ar gyfer creu delweddau newydd. Mae gweithio gyda phlu wedi datblygu i wneud printiau o adar yn hedfan, sy'n awgrymu ysgafnder a rhyddid.

Yn wreiddiol o Swydd Northampton, symudodd Ruth i Ogledd Cymru yn 2000 gyda'i gŵr a'i merch. Graddiodd Ruth o Brifysgol Fetropolitan Leeds yn 1996 gyda gradd Meistr mewn Celf a Dylunio. Mae hi wedi arddangos ei gwaith mewn orielau ar draws y DU, yn ogystal ag yn rhyngwladol. Mae ganddi waith mewn casgliadau yn Awstralia, Seland Newydd, Ewrop, y DU ac UDA. Cafodd ei hethol i'r Academi Frenhinol Gymreig yn 2005 ac i Urdd Gwneuthurwyr Cymru yn 2021.



# SUSAN DAVIES

Susan's prints capture wildlife in brooding skies, with her work reflecting a mood or a moment using drama and detail. Each mezzotint image begins on a fully grounded, toothed copper plate, which is then scraped and burnished to create tonal detail, whilst each drypoint image is engraved onto a plate with an etching needle. These intaglio processes show Susan's passion for wildlife, especially birds and their mythology and her love of stormy skies.

Drawing and painting since childhood, Susan studied Fine Art at Stourbridge College of Art and Design and trained as a miniaturist at Halcyon Days Enamels Ltd. As one of their Premier Artists for over 25 years Susan hand painted Georgian inspired vitreous enamels for clients worldwide, including Japanese and British royalty. Working solely as a professional artist since 2013, Susan works from her Stourbridge studio and The Birmingham Printmakers.







Mae printiau Susan yn tynnu sylw at fywyd gwylt yn yr awyr, gyda'i gwaith yn adlewyrchu naws neu eiliad gan ddefnyddio drama a manylion. Mae pob delwedd mezzotint yn dechrau ar blât copr danheddog wedi'i seilio'n llawn, sydd wedyn yn cael ei grafu a'i losgi i greu manylion tonyddol, tra bod pob delwedd sychbwynt yn cael ei ysgythru ar blât gyda nodwydd ysgythru. Mae'r prosesau intaglio hyn yn dangos angerdd Susan at fywyd gwylt, yn enwedig adar a'u chwedloniaeth a'i chariad at awyr stormus. Wedi bod yn arlunio a phaentio ers ei phlentyndod, bu Susan yn astudio Celfyddyd Gain yng Ngholeg Celf a Dylunio Stourbridge a hyfforddodd fel miniaturydd yn Halcyon Days Enamels Ltd. Fel un o'u Prif Artistiaid am dros 25 mlynedd bu Susan yn peintio â llaw enamelau gwydrog wedi'u hysbrydoli gan ddarnau Sioraidd ar gyfer cleientiaid ledled y byd, gan gynnwys breindal Japaneidd a Phrydeinig. Gan weithio fel artist proffesiynol ers 2013 yn unig, mae Susan yn gweithio o'i stiwdio yn Stourbridge a 'The Birmingham Printmakers'.







## VIV KERSEY

Viv specialises in making prints of birds; trying to capture something of their spirit and vitality, a continuing source of wonder and fascination to her. Using her Littlejohn etching press she makes both intaglio and relief work and in this series of prints in Hedfanol she explores the ways in which using different processes and techniques can convey the sensation of flight in various species. Viv Kersey lives on a smallholding

in rural West Wales where there are many opportunities for observing and drawing the natural world. She loves the way printmaking transforms her drawings of birds and animals and the serendipity of printmaking. She makes etchings, monotypes, collagraphs, drypoints, linocuts and woodcuts. She is part of Tywi Printmakers, finding great encouragement and support from working with others.







## H E D F A N O L

VIV KERSEY

Mae Viv yn arbenigo mewn gwneud printiau o adar; gan geisio dal rhywbeth o'u hysbryd a'u bywiogrwydd, ffynhonnell barhaus o ryfeddod a diddordeb iddi. Gan ddefnyddio ei gwasg ysgythru Littlejohn, mae'n gwneud gwaith intaglio a cherfwedd ac yn y gyfres hon o brintiau yn Hedfanol mae'n archwilio'r ffyrdd y gall defnyddio gwahanol brosesau a thechnegau gyfleu'r teimlad o hedfan mewn rhywogaethau amrywiol.

Mae Viv Kersey yn byw ar dyddyn yng nghefn gwlad Gorllewin Cymru lle mae llawer o gyfleoedd i arsylwi a darlunio byd natur. Mae hi wrth ei bodd â'r ffordd y mae gwneud printiau'n trawsnewid ei darluniau o adar ac anifeiliaid a serendippedd gwneud printiau. Mae hi'n gwneud ysgythriadau, monoteipiau, colagraffau, sychbwyntiau, toriadau leino a thorluniau pren. Mae hi'n rhan o Dywi Printmakers, gan ddod o hyd i anogaeth a chefnogaeth wych o weithio gydag eraill.







**Gallery**  
Makers Guild Wales

**Oriel**  
Urdd Gwneuthurwyr Cymru

# H E D F A N O L

**The Makers Guild in Wales would like to thank and acknowledge:**

Marian Haf and Ruth Thomas curators of Hedfanol

The exhibiting artists

The Arts Council of Wales

Ifan Bates, catalogue design

The Makers Guild in Wales  
Craft in the Bay, The Flourish  
Lloyd George Avenue  
Cardiff Bay  
Wales  
CF10 4QH

t +44(0)29 20484611

e [exhibitions@makersguildinwales.org.uk](mailto:exhibitions@makersguildinwales.org.uk)

© The Makers Guild in Wales and Authors 2023

ISBN 978-0-9933435-8-2

This book is produced to complement the exhibition Hedfanol. It may not be reproduced in whole or part in any form whatsoever without the written permission from the publisher.





H E D F A N O L